

## CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 11eg o Dachwedd 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Miriam Webb.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Hydref** ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'l eilio gan Cyng Steve Lewis.

#### 4. **Materion yn codi**

##### a) **Materion Prifffyrdd/llwybrau.**

Adroddwyd ymateb pellach gan Cyngor Gwynedd am y cloddiau yn gordyfu ar Stryd Llanegryn. Diolchwyd am luniau o geir yn parcio ar stryd Llanegryn, a byddai'r Clerc yn pasio ymlaen y rhif cofrestru.

Yng nghyswllt **gwneud llwybr i'r anabl ar y cae chwarae**, nodwyd diweddariad gan Cyng Steve Lewis.(gwaith i gychwyn Chwefror 2025)

Nodwyd fod cerddwyr yn tramwyo drwy gefn gardd Rhif 1 Maesmeillion, a bod angen arwydd yno.

- b) **Rheilffordd Talyllyn/Safle Treftadaeth – croesawyd Elin Wiliam o Gyngor Gwynedd atom i drafod y sefyllfa ddiweddaraf**, ac yn arbennig adroddiad am y Grwp LLeCHi LleNi oedd wedi cyfarfod Dydd Mercher 6ed Tachwedd, arian Cronfa Treftadaeth y Loteri ayyb. Roedd bellach oddeutu £33 mil wedi ei neilltuo yn bendol i Abergynolwyn, ac roedd angen syniadau i'w danfon ymlaen. Byddai Elin yn cynorthwyo gyda hwyluso cyfathrebu, a datblygu syniadau. Y dyddiad cau ar gyfer yr holiaduron celf gyhoeddus oedd diwedd Ionawr 2025. Dosbarthwyd yr holiaduron, (oedd wedi eu danfon i'r Cynghorwyr) ac roedd stoc yn y dafarn y Railway. Dywedodd Cyng Beth Lawton y byddai yn rhoi ar tudalen fbook Abergynolwyn, gyda linc ir holiadur. Ymysg syniadau y Cyngor Cymuned oedd y wagen lechi, QR code yn y chwarel, arwyddbyst o'r newydd yn y pentref, pwyntiau gwybodaeth (rhaf sy'n troi) angen eu diweddarau, plethu gwaith chwareli a band pres, ail-greu amgueddfa, gwneud ffilm ayyb. Addawodd Elin gael mwy o wybodaeth.
- c) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, ond nodwyd y byddai hyn ar y gweill yn fuan.
- d) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – nodwyd y byddai rhaid ceisio cael amcangyfrifon i law erbyn y cyfarfod nesaf.

- e) **Gwaith ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn.** Nodwyd fod Cyng Emrys Thompson, Elwyn Evans a Gwynedd Roberts wedi ymweld ers tro diwethaf. Roedd lluniau i law gan Emrys. Roedd y gwaith yn cynnwys ail-godi wal, clirio 6 coeden Ywen, un goeden rhododendron a un goeden arall fach yno. Nodwyd fod angen copi o'r 'waste transfer notice' i'w gadw gyda phapurau y Cyngor rhag ofn bydd ymholiad.

Byddai'r Clerc yn ceisio cael amcangyfrifon gan Kevin Jones, Arwyn Davies a Tywyn Tree Services.

## 5. Materion Cynllunio

Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

## 6. Materion Cyllid.

- a) Cyfrifon 2023-24 - nodwyd fod y Clerc wedi ymateb ymhellach i fân ymholiadau.
- b) Ceisiadau am arian - nodwyd y canlynol;
- **Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn** – ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Eleri Puw, cytunwyd ar gyfraniad o £150. (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Robert D Jones a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a gadawsant yr ystafell pan drafodwyd hyn)
  - **Ambiwlans Awyr Cymru** – penderfynwyd peidio cyfrannu am y tro, ond gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn nodyn i ddweud fod y gwasanaeth yma yn bwysig i'r ardal, ac nad eu dymuniad oedd gwrthod. Fodd bynnag, roedd angen mwy o wybodaeth am eu cynlluniau, a beth oedd yn digwydd o ran eu safleoedd i'r dyfodol.
- c) Dosbarthwyd **cyllideb ddrafft** ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2025-26 a oedd wedi ei paratoi gan y Clerc. Aethpwyd drwy yr holl ffigurau. Ar sail y drafodaeth, penderfynwyd ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Dylan Jarman i **godi y praesept 5%, sef £600.**

## 7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

Cafwyd adroddiad gan Cyng Beth Lawton am ei gwaith yn yr ardal. Ymysg y materion oedd y canlynol;

- Sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd, a bod diffyg sylweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd y gyllideb diweddar wedi gwaethygu y sefyllfa yn fawr.
- Rhoddwyd adroddiad am y diweddaraf gyda Ysbyty Tywyn.

## 8. Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.

- Cyfeiriodd Cyng Elwyn Evans at Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ar Ddydd Mercher 16eg Hydref. Roedd 20 mlynedd ers sefydlu Un Llais Cymru. Nododd ymweliad Jayne Bryant AS, ac Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol. Hefyd Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a bod adroddiadau am gynnydd yn y cwynion yn erbyn Cynghorwyr.

## 9. Gohebiaeth.

- a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** – dim i'w adrodd ers tro diwethaf.
- b) **Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru** – byddai rhain yn cael eu dosbarthu
- c) **Cynhadledd SLCC/Un Llais Cymru** – Dydd Mercher 20fed Tachwedd – adroddodd y Clerc y byddai yn rhan o hyn gan ei fod yn Clerc i 4 Cyngor Cymuned. Cytunwyd yn unfrydol i dalu rhan daliad o £19 i'r Clerc ar gyfer hyn.
- d) Gohebiaeth Cyngor Cymuned Llanystumdwy ynglyn a **Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg**- adroddwyd am hyn, a chynnwys yr adroddiad. Byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu, ac yn danfon gair i gefnogi y cynnig os oedd mwyafrif yn ymateb yn gadarnhaol.
- e) **Llythyr gan bwylgor Achub Plas Tanybwlich** yn gofyn am gefnogaeth – adroddwyd am hyn. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Robert Jones) Gwelwyd fod hyn tu allan ein hardal, ond y dylem ddymuno yn dda iddynt.

## 10. Unrhyw fater arall

- a) Cytunwyd i archebu coeden Nadolig eto eleni ar gyfer yr Eglwys erbyn gwasanaeth carolau ar yr 8fed o Ragfyr. Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts, byddai'r Cyngor yn talu y gost fel arfer.
- b) Nid oedd y ciosc ger y groesffordd, Caerberllan yn gweithio unwaith eto. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda BT.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN  
13eg Ionawr 2025 , 7.00y.h.**

.....

## **CARTREF MARI JONES**

**Cadarnhawyd swm o £6.13 yn y blwch rhoddion, a byddai'r Clerc yn bancio**

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 11th of November 2024 at 7.00pm at the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans.

There was an apology from Cllr Miriam Webb.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matter on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 14th of October were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts seconded by Cllr Steve Lewis.

4. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

A further response was reported from Gwynedd Council about the hedges overgrowing on Llanegryn Street. Thanks were given for pictures of cars parking on Llanegryn street, and the Clerk would pass on the registration number.

In relation to making a path for the disabled on the playing field, an update was noted by Cllr Steve Lewis. (work to start February 2025)

It was noted that pedestrians pass through the back of garden No. 1 Maesmeillion, and that a sign is needed there.

b) Talyllyn Railway/Heritage Site - Elin Wiliam from Gwynedd Council was welcomed to discuss the latest situation, and in particular a report on the LLeCHi LleNi Group which met on Wednesday 6th November, Heritage Lottery Fund money etc. There was now approximately £33k specifically allocated to Abergynolwyn, and ideas were needed to be forwarded. Elin would assist with facilitating communication, and developing ideas. The closing date for the public art questionnaires was the end of January 2025. The questionnaires were distributed, (which had been sent to the Councillors) and there was stock in the Railway pub. Cllr Beth Lawton said she would put it on the Abergynolwyn fbook page, with a link to a questionnaire. Among the Community Council's ideas were the slate wagon, a QR code in the quarry, new signposts in the village, information points (those

that turn) needing to be updated, involment of the quarry and brass band ,re-creating a museum, making a film etc. Elin promised to get more information.

c) A tree damaging a wall - there was no update, but it was noted that this would be planned soon.

d) Inspection of the playing field by ROSPA - it was noted that it would be necessary to try to get estimates by the next meeting.

e) Work at Y Fedw Abergynolwyn cemetery. It was noted that Cllr Emrys Thompson, Elwyn Evans and Gwynedd Roberts had visited since last time. Pictures were available from Emrys. The work included rebuilding a wall, clearing 6 Yew trees, one rhododendron tree and one other small tree there. It was noted that a copy of the 'waste transfer notice' is required to be kept with the Council's papers in case there is an enquiry.

The Clerk would try to get estimates from Kevin Jones, Arwyn Davies and Tywyn Tree Services.

## 5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

## 6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - it was noted that the Clerk had responded further to minor inquiries.

b) Requests for money - the following were noted;

- Abergynolwyn Annual Eisteddfod - on the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Eleri Puw, a contribution of £150 was agreed. (there was a declaration of interest from Cllr Robert D Jones and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council) and they left the room when this was discussed)

- Cymru Air Ambulance - it was decided not to contribute for the time being, but the Clerk was asked to send a note to say that this service is important to the area, and that it was not their wish to refuse. However, more information was needed about their plans, and what was happening in terms of their positions for the future.

c) A draft budget was distributed for the next financial year 2025-26 which had been prepared by the Clerk. All the figures were gone through. Based on the discussion, it was decided on Cllr Emrys Thompson's proposal and seconded by Cllr Dylan Jarman to raise the precept by 5%, which is £600.

#### 7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

A report was given by Cllr Beth Lawton about her work in the area. Among the issues were the following;

- Gwynedd Council's financial situation, and that there is a significant deficit for next year. The recent budget had greatly worsened the situation.
- A report was given about the latest with Ysbyty Tywyn

#### 8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

- Cllr Elwyn Evans referred to the One Voice Wales Annual Conference on Wednesday 16th October. It was 20 years since Un Llais Cymru was founded. He noted the visit of Jayne Bryant MP, and Adrian Crompton, the Auditor General. Also Michelle Morris, Public Services Ombudsman for Wales and that there are reports of an increase in complaints against Councillors.

#### 9. Correspondence.

a) Llanfihangel y Pennant cemetery matters - nothing to report since last time.

b) Un Llais Cymru training dates - these would be distributed

c) SLCC/Un Llais Cymru Conference - Wednesday 20th November - the Clerk reported that he would be part of this as he was Clerk to 4 Community Councils. It was unanimously agreed to pay a part payment of £19 to the Clerk for this.

d) Correspondence of Llanystumdwy Community Council regarding the Report of the Welsh Communities Commission - this was reported, and the contents of the report. The Clerk would distribute it, and deliver a word in support of the proposal if a majority responded positively.

e) A letter from the Plas Tanybwllch Rescue committee asking for support - this was reported. (there was a declaration of interest from Cllr Robert Jones) It was seen that this was outside our area, but we should wish them well.

#### 10. Any other matter

a) It was agreed to order a Christmas tree again this year for the Church by the carol service on the 8th of December. On the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Gwynedd Roberts, the Council would normally pay the cost.

b) The kiosk near the crossroads, Caerberllan was not working once again. The Clerk would contact BT.

DATE OF NEXT MEETING; Y Ganolfan, ABERGYNOLWYN MONDAY 13th  
January 2025, 7.00 p.m.....

.....

CARTREF MARI JONES

A sum of £6.13 was confirmed in the donation box, and the Clerk would bank



